# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## SLC(3) 18-08

Dyddiad: 15 Gorffennaf 2008
Amser: 8.45am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

### Monitro canlyniad adroddiadau'r Pwyllgor ar is-ddeddfwriaeth

### Diben

1. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried mewn egwyddor, adolygu canlyniadau ei adroddiadau ar offerynnau statudol o dan Reolau Sefydlog 15.2-15.6 bob blwyddyn.

### Cefndir

2. Ers dechrau'r Trydydd Cynulliad, mae'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth wedi craffu ar 180 o offerynnau statudol fel y mae'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 15.2 ac wedi adrodd ar 53 o offerynnau statudol o dan Reolau Sefydlog 15.2, 15.3 neu 15.6 yr oedd chwech ohonynt heb fod angen unrhyw weithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ynglŷn â'r gweddill, mae ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor wedi nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd camau i gywiro 15.

3. Yn ei ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor, gall Llywodraeth Cynulliad Cymru e.e ymgymryd â diwygio'r rheoliadau yn syth neu y tro nesaf y cant eu diwygio a gallant hefyd nodi, yn unol ag ymrwymiad y Cwnsler Cyffredinol i'r perwyl hwn (fel y nodir yn ei lythyr i'r Cadeirydd, 14 Ionawr 2008) pan fyddai disgwyl i welliannau o'r fath gael eu gwneud. Efallai'r hoffai'r Pwyllgor adolygu canlyniad ei adroddiadau bob blwyddyn er mwyn monitro effeithiolrwydd ei waith craffu.

4. Er mwyn hwyluso'r gwaith o fonitro canlyniad gwaith craffu'r Pwyllgor, awgrymir bod y Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cwnsler Cyffredinol ynghylch y camau arfaethedig â nodwyd yn ymatebion Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiadau'r pwyllgor ar y 32 offeryn statudol sy'n weddill gyda'r camau sydd heb eu cymryd, gan ddynodi'n fwy penodol, os yn bosibl, pryd mae'r Llywodraeth yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn.

5. Awgrymir y dylai'r wybodaeth ynghylch unrhyw gamau sydd heb eu cymryd gan Weinidogion o ran y pwyntiau a amlygwyd yn adroddiadau'r pwyllgor gael eu gwneud yn hysbys i'r Pwyllgor erbyn dechrau tymor yr Hydref 2008.

6. Mae Atodiad A yn rhestru'r offerynnau nad oedd angen cymryd camau yn eu cylch neu'r offerynnau y cwblhawyd y camau unioni perthnasol. Mae rhestr o'r 32 darn o ddeddfwriaeth sy'n weddill i'w gweld yn Atodiad 1. Mae adroddiadau'r Pwyllgor ar yr offerynnau statudol hyn/offerynnau statudol drafft / is-ddeddfwriaeth berthnasol arall ar gael ar wefan y Pwyllgor:

### Saesneg:

h

ttp://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-sleg-home/bus-committees-third-sleg-agendas-2.htm

### Cymraeg:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-sleg-home/bus-committees-third-sleg-agendas-2.htm

### Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

7. Gwahoddir y pwyllgor i gytuno:

(i) y dylai'r Pwyllgor, mewn egwyddor, adolygu canlyniadau ei adroddiadau ar offerynnau statudol bob blwyddyn;

(ii) bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol, i ofyn am y wybodaeth a nodir ym mharagraff 4 er mwyn hwyluso'r ymarfer monitro.